# Blaenoriaethu Gofal Plant All-Ysgol fel elfen sy’n hollbwysig i hawliau plant – Maniffesto ar gyfer Etholiad y Senedd 2026

Yn rhan o’r paratoi ar gyfer etholiadau’r Senedd 2026, pwyswn ar Lywodraeth Cymru i flaenoriaethu Gofal Plant All-Ysgol fel elfen sy’n hanfodol i hawliau plant, llesiant, cefnogaeth i deuluoedd a thyfiant economaidd. Mae buddsoddi yn y sector hwn yn hanfodol i ffyniant Cymru yn y dyfodol.

**Ein gweledigaeth: Cymru lle mae plant yn chwarae a chymunedau’n ffynnu.**

**Effaith y Sector:**

- Y mae’n cefnogi 45,000+ o blant i chwarae, eu rhieni/gofalwyr i weithio a hyfforddi, a gwelliant yn amgylchiadau teuluoedd.
- Y mae’n cyflogi hyd at 5,000 o Weithwyr Chwarae

Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs

## 3 Prif Flaenoriaeth

### Llesiant: Gwella iechyd meddyliol plant, eu llesiant a’u datblygiad drwy chwarae sydd o ansawdd ac yn gynhwysol.

- Rhaid cynnal hawl plant i chwarae a'u lles cyffredinol drwy gyllid digonol ac addysg gyhoeddus am bwysigrwydd chwarae.
- Mae Clybiau Gofal Plant All-Ysgol yn cynnig chwarae diogel, dan arweiniad plant, sy'n cefnogi datblygiad corfforol, emosiynol a gwybyddol. Dylid rhoi sylw arbennig i blant ag anghenion ychwanegol, gan sicrhau bod ganddynt fynediad cyfartal i'r gwasanaethau hyn.

### Y Gweithlu: Adeiladu gweithlu cymwysedig, a werthfawrogir, ac sy’n gynaliadwy.

- Mae Gweithwyr Chwarae’n â rôl allweddol yn darparu gofal o ansawdd ac ateb anghenion plant a theuluoedd. Ond mae heriau o ran recriwtio a chadw’n parhau o ganlyniad i gyflogau isel a chyllido annigonol.
- Mae ar y sector angen ariannu hirdymor ar gyfer cymhwyso/hyfforddi mewn Gwaith Chwarae a chynlluniau i gynnal gwella tâl ac amodau.

### Galwad i Weithredu:

- Bygythir cynaliadwyedd Clybiau Gofal Plant All-Ysgol gan gostau cynyddol (rhent, cyflogau) a phwysau ariannol ar deuluoedd, sy’n arwain at leoliadau’n cau neu gwtogi ar y gwasanaeth.
- Mae angen cyllid hirdymor hygyrch i sicrhau bod Clybiau’n parhau’n hyfyw ac yn parhau i gefnogi plant a theuluoedd.

## Galwadau i Weithredu

### Llesiant

- Cefnogi hawliau plant drwy sicrhau bod y penderfyniadau a wneir gan Lywodraeth Cymru yn ystyried eu hanghenion chwarae, gan sicrhau cynhwysiant i blant ag anghenion ychwanegol.
- Hyrwyddo rôl Gweithwyr Chwarae, gan amlygu eu cyfraniad at iechyd meddwl a datblygiad cymdeithasol plant a chadw tlodi teuluol draw.
- Defnyddio Clybiau cofrestredig Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) i gyflwyno mentrau cyfoethogi/llesiant/gwyliau llwglyd

### Y Gweithlu

- Darparu iawndal teg a fyddai'n adlewyrchu pwysigrwydd rôl Gweithwyr Chwarae.
- Hyrwyddo gwerth Gweithwyr Chwarae wrth gyfathrebu fel llywodraeth, ac yn y penderfyniadau polisi, gan sicrhau bod y sector yn derbyn sylw digonol ac ariannu hirdymor i sefydlogi'r gweithlu.

### Cylllido a Chefnogi

- Dyrannu cyllid penodol, wedi ei neilltuo ar gyfer y sector Gofal Plant All-Ysgol, i'w gynnwys yn y Grant Plant a Chymunedau
- Sicrhau bod mannau cyfarfod cymunedol â rhent fforddiadwy a hyblyg, a chynyddu'r gefnogaeth i fusnesau gofal plant i helpu i'w cadw'n gynaliadwy





Wrth baratoi ar gyfer etholiad y Senedd erbyn mis Mai 2026, ac wedi'i lywio gan y sector Gofal Plant All-Ysgol, mae Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs yn nodi'r hyn y dylai Llywodraeth Cymru ei wneud i helpu i wella bywydau plant a theuluoedd ac economi Cymru.

Gweledigaeth Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs yw Cymru lle mae plant yn chwarae a chymunedau'n ffynnu. Fel llais Clybiau Gofal Plant All-Ysgol yng Nghymru, rydym yn cefnogi hawl plant i chwarae a gofal plant o safon sy'n gynaliadwy, yn fforddiadwy ac yn diwallu anghenion plant, eu teuluoedd a'u cymunedau. Mae Clybiau Gofal Plant All-Ysgol yn rhan allweddol o economi sylfaenol Cymru, drwy alluogi rhieni a gofalwyr dros 45,000 o blant i weithio, hyfforddi a gwella amgylchiadau eu teuluoedd, a darparu hyd at 5,000 o swyddi Gweithwyr Chwarae.

Rydym yn cefnogi dros 1,500 o Glybiau Gofal Plant All-Ysgol Saesneg, Cymraeg a dwyieithog, sy'n rhedeg ar y naill ochr a'r llall i'r diwrnod ysgol ac yn ystod gwyliau'r ysgol, gan gefnogi hawliau plant a darparu cyfleoedd chwarae o safon, a ddewisir yn rhydd. Mae'r cyfleoedd chwarae hyn yn arbennig o bwysig gan eu bod yn cael eu herydu gan fywyd modern, a gallant helpu i atal y cynnydd yn anghenion lles a chymorth plant.

Mae'r maniffesto hwn, wedi'i lywio'n uniongyrchol gan y sector, yn tynnu sylw at rôl hanfodol y sector Gofal Plant All-Ysgol ac yn galw ar Lywodraeth nesaf Cymru i flaenoriaethu'r camau gweithredu canlynol o dan:


- Llesiant
- Y Gweithlu
- Cyllido a Chefnogaeth




## Llesiant

**Cadarnhau Hawliau Plant a chefnogi llesiant drwy gydnabod yn barhaus werth Gweithwyr Chwarae a’r gwasanaethau chwarae o ansawdd y maent yn eu darparu mewn Clybiau i danategu hyn.**

Mae Clybiau Gofal Plant All-Ysgol sy’n gofrestredig ag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn cynnig lleoedd o ansawdd uchel, diogel, sy’n gyfoethog o ran chwarae ac wedi’u harwain gan blant. Maent wedi'u hwyluso gan Weithwyr Chwarae cymwys sy'n cefnogi hawliau plant (CCUHP, yn enwedig Erthyglau 31, 19, 24, 23, 12, 15 a 13; a Sylw Cyffredinol 17) a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae clybiau'n darparu cyfleoedd gwerthfawr i chwarae a chymdeithasu, yn cynnwys ar gyfer nifer gynyddol o blant ag anghenion ychwanegol (1,470 o blant mewn arolwg gyda chyfradd ymateb sector o 36%; wedi'i allosod, gellid amcangyfrif hyn yn 4,083 o blant) ac amrywiaeth o anghenion lles a chymorth. Mae angen digon o gefnogaeth i glybiau ddarparu ar gyfer plant ag anghenion ychwanegol a mwy o gydnabyddiaeth o sut mae clybiau'n cefnogi chwarae a lles pob plentyn.




[1] National Club Survey 2024


## Wellbeing

*“Mae’n rhyfeddol gweld plant yn dianc o fyd technoleg, yn mynd yn ôl at yr hanfodion ac yn CHWARAE!! Mae cyfeillgarwch yn cael ei feithrin, lles yn cael e i hyrwyddo, ac mae plant ar eu hapusaf pan maen nhw’n cael eu denu’n ôl i fyd natur ac yn gorfod meddwl a defnyddio eu dychymyg. Hoffwn pe bai’r byd yn gallu gweld manteision rhoi cyfleoedd chwarae i blant!”*

*“Mae chwarae’n rhan hanfodol o fywyd pob plentyn ac mae’n hollbwysig i fwynhad plentyndod a datblygiad cymdeithasol, corfforol, deallusol, creadigol ac emosiynol. Mae plant hefyd yn ennill hyblygrwydd, rhyddid ac yn cael hwyl” [2]*

### Galwad i weithredu:

- Parhau i gefnogi hawliau plant drwy sicrhau eu bod yn gallu cymryd rhan mewn prosesau gwneud penderfyniadau, a bod cyllid yn diwallu eu hanghenion hawliau a lles.
- Gweithio’n barhaus i addysgu a hysbysu cymunedau, ysgolion a llunwyr penderfyniadau am hawl plant i chwarae a'i effaith gadarnhaol.
- Digon o gyllid, hyfforddiant a mecanweithiau cymorth eraill i sicrhau bod gan blant ag anghenion ychwanegol a'u teuluoedd yr un mynediad at Glybiau Gofal Plant All-Ysgol cofrestredig AGC – a’r  cyfleoedd y maent yn eu darparu – â'u cyfoedion ac nad yw hyn yn dibynnu ar ble maen nhw'n byw.
- Lleoedd Gofal Plant All-Ysgol, cofrestredig ag AGC, o ansawdd uchel, wedi'u hwyluso gan Weithwyr Chwarae cymwys a phrofiadol, ac sy’n cael eu defnyddio ar gyfer cynlllluniau presennol cyfoethogi ysgolion, lles, a gwyliau-llwglyd, a’r rhai sy'n dod i'r amlwg, heb stigma.
- Hyrwyddo'n gyson ac yn gyhoeddus rôl Gweithwyr Chwarae a Gofal Plant All-Ysgol cofrestredig ag AGC ac a reoleiddir, yn cefnogi iechyd meddwl a lles plant a'u datblygiad seicolegol, cymdeithasol a gwybyddol;  a galluogi rhieni a gofalwyr i wella eu hamgylchiadau teuluol a chadw tlodi draw.





[2] Adroddiad Blynyddol i’r Moondance Foundation 2024

**Tâl teg a chyllido i gefnogi recriwtio a chadw staff. Hyrwyddo gwerth y sector a Gweithwyr Chwarae**


Mae Gweithwyr Chwarae cymwys a phrofiadol yn hanfodol i ddarparu chwarae a gofal o safon ac i gefnogi hawl plant i chwarae a'u hanghenion lles a chymorth cynyddol, gan ganiatáu i rieni/gofalwyr weithio, hyfforddi a darparu ar gyfer eu teuluoedd. Mae recriwtio a chadw staff yn parhau i fod yn her allweddol, gan leihau cynaliadwyedd y sector, ei allu i gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru, i ehangu a diwallu anghenion plant a theuluoedd. Mae llawer o Weithwyr Chwarae ar gyflogau isel/yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol; nid yw'r rhain yn diwallu eu hanghenion ariannol eu hunain nac yn adlewyrchu eu cyfrifoldebau, yn enwedig wrth i ddisgwyliadau a gofynion ar y sector gynyddu. Mae gweithwyr chwarae yn gadael y sector. Mae'r cyfraddau cyflog wedi'u cyfyngu gan allu cyfyngedig y sector i godi mwy ar bobl, ac mae'r sector yn cael trafferth gyda chynnydd mewn cyflogaeth, rhent a phob cost arall. Rhaid cydnabod gwerth a chyfrifoldeb y rôl yn llawn a'u hadlewyrchu yn y cyflog a'r amodau.

> *"Effaith yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol yw na all y rolau rheoli uwch bob tro gael yr un cynnydd."*

## Galw am Weithredu:

- Cyllid hirdymor ar gyfer cymwysterau, hyfforddiant a chynlluniau Gwaith Chwarae, i gynnal recriwtio a chadw, cefnogi cofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru a helpu i ddiwallu anghenion teuluoedd, gan gynnwys dull wedi'i dargedu'n arbennig ar gyfer y sector cyfrwng-Cymraeg.
- Hyrwyddo gwerth Gweithwyr Chwarae a'r sector Gofal Plant All-Ysgol a'u cyfraniad cadarnhaol at blentyndod ac economi Cymru. Dylai hyn fod yn amlwg ym mhob cyfathrebiad a phenderfyniad polisi gan y llywodraeth.
- Dull cyfannol o fewn Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar sy'n cydnabod y gwerth cyfartal sydd gan chwarae a rôl y Gweithiwr Chwarae i blant wrth iddynt dyfu'n hŷn.
- Cefnogaeth barhaus i hygyrchedd a chynaliadwyedd darpariaeth chwarae a gofal cofrestredig trwy fentrau sy'n cefnogi fforddiadwyedd a thâl teg i Weithwyr Chwarae (e.e. Gofal Plant Di-dreth, y Cynnig Gofal Plant). Estyn mentrau i gefnogi teuluoedd plant oed-ysgol hŷn.





[1] Arolwg Gofal Plant All-Ysgol Cenedlaethol 2024



**Cyllido hirdymor parhaus i gefnogi cynaliadwyedd y sector**

Mae cynaliadwyedd yn parhau i fod yn her i glybiau sy'n cael eu heffeithio gan gostau cynyddol, a theuluoedd yn lleihau faint o ofal lant a ddefnyddir oherwydd eu costau byw cynyddol eu hunain. Mae clybiau'n cael eu gorfodi i gau ac yn ystyried cynyddu ffioedd, cau elfennau o'r gwasanaeth, lleihau oriau agor a dadgofrestru. Ac eto, maent yn rhan o'r economi sylfaenol, yn allweddol i wydnwch economaidd Cymru, yn cyflogi pobl leol ac yn galluogi rhieni/gofalwyr i weithio a hyfforddi

*"Bydd y rhent yn codi ym mis Ebrill a hefyd gyflogau'r staff, mae hyn yn andwyol i fusnesau bychain a bydd yn effeithio ar glybiau ym mhob man."*

*"Er bod nifer y plant sy'n mynychu yn aros yr un fath, mwy o bosibl, mae'r gorbenion wedi cod. Gellid ein hystyried yn gynaliadwy, ond mae cynnydd mawr yn y taliadau allan."*

## Galw am Weithredu

- Cyllid hirdymor hygyrch, gan gynnwys ar gyfer refeniw, wedi'i ddynodi'n benodol o fewn y Grant Plant a Chymunedau ar gyfer y sector Gofal Plant All-Ysgol.
- Cydweithio i wella mynediad at leoliadau cymunedol, gyda rhent a threfniadau fforddiadwy a hyblyg. Estynnwyd y Cynllun Rhyddhad Trethi Busnesau Bach i ysgolion/adeiladau cymunedol a ddefnyddir yn rhannol gan ofal plant.
- Cyllid ar gyfer cymorth busnes Gofal Plant All-Ysgol pwrpasol a phenodol i sicrhau darpariaeth gofal plant cynaliadwy, o ansawdd da.
- Hyrwyddo manteision cofrestru ag AGC gan alluogi rhieni/gofalwyr i wneud dewisiadau gwybodus ar gyfer gofal yn ystod y gwyliau yn benodol, sy'n cystadlu ag ystod o wasanaethau nad oes angen iddynt gofrestru na bodloni safonau gofynnol o ran cefnogi ansawdd a diogelwch.



## Mynnwch wybod mwy am y sector Gofal Plant All-Ysgol





**Arolwg Gofal Plant All-Ysgol Cenedlaethol 2024**

Registered Charity/Elusen Gofrestredig: 1093260 | Company limited by guarantee/Cwmni Cyfyngedig trwy warant: 4296436

Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs, Bridge House | Ty'r Bont, Station Road | Ffordd yr Orsaf, Llanishen | Llanisien, Cardiff | Caerdydd, CF14 5UW

Cysylltwch â Ni i wybod- mwy am y gefnogaeth y gall Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs ei chynnig i'ch clwb chi.

www.clybiauplantcymru.org
info@clybiauplantcymru.org
029 2074 1000
Facebook
Twitter
Mai 2025



Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs